# CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON

## COFNODION CYFARFOD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 27AIN GORFFENNAF 2016 AM 3.23 P.M.

---

YN BRESENNOL:

Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Forehead (Adnoddau Dynol a Chorfforaethol/Rheolwr Busnes), N. George (Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), K. James (Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy), D.V. Poole (Tai), T. Williams (Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg) and R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a S151) a C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

D. Whetter (Pennaeth Adfywio Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaeth Pwyllgorau).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddiwrth y Cynghorydd D.T. Hardacre, Mrs B. Jones a D. Street.

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau ar ddechrau nag yn ystod y cyfarfod.

### 3. STATWS ELUSENNOL SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON

Cynghorodd yr Adroddiad yr Aelodau am anghenion statudol y gofynion ar statws elusennol Sefydliad y Glowyr a gofynwyd am gymeradwyaeth er mwyn gweithredu mesuriadau newydd er mwyn cydymffurfio â chyfraith elusennau mewn perthynas â chyflwyno chyfrifon. Yn ogystal â hyn ystyriodd yr adroddiad argymhellion ar reolaeth gyfredol Sefydliad y Glowyr a chyfrifoldebau'r Cyngor fel ymddiriedolwr.

Trosglwyddwyd Sefydliad y Glowyr fel ymddiriedolaeth elusennol i Gyngor Bwrdeistref Islwyn (ac yna Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) ac fe'i henwyd fel elusen gofrestredig ar y 13eg o Dachwedd 1990.

Mae gan yr awdurdod lleol, wrth weithredu fel unig ymddiriedolwr corfforaethol, ddyletswydd gyfreithiol i weithredu'r elusen yn unol â'r ddogfen lywodraethol ac mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i fod yn atebol am gyfrifon yr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi nodi yn ddiweddar bod y Cyngor, fel unig ymddiriedolwr, ddim yn adrodd ar gyfrifon yr elusen ar wahân yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, ac felly rhaid i fesuriadau newydd cael eu gosod mewn lle er mwyn egluro perthynas yr awdurdod lleol i'r elusen ac er mwyn bodloni'r Comisiwn Elusennau fod y cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb, yn unol â'r gyfraith elusennol

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy ddangos dwylo cytunwyd yn unfrydol.

Cytunwyd â hyn yn unfrydol gan ddangos dwylo.

PENDERFYNWYD derbyn am y rhesymau a gynhwysir yn y Swyddogion:-

(i) Cabinet yn parhau i fod yn ymddiriedolwr i Sefydliad y Glowyr, Coed Duon (SyG);

(ii) bod y rhedeg o ddydd i ddydd o SyG yn cael ei gwblhau gan Reolwr y Theatr (wedi ei oruchwylio gan Bennaeth Adfywio Dros Dro) a bod adroddiadau achlysurol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet fel ymddiriedolwyr;

(iii) i gymeradwyo y cynnig bod paratoi a chyflwyno datganiadau cyfrifon blynyddol ac adroddiad ar gyfrifon SyG i'r Comisiwn Elusennol ( mewn fformat sydd yn cydymffurfio â **SORP** (gan gynnwys ymchwiliadau annibynnol neu archwiliad o'r cyfrifon)),yn cael ei dirprwyo i Bennaeth Cyllid Corfforaethol;

(iv) bod cyfarfodydd â'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr i drafod rheolaeth strategol SyG a fydd yn cynnwys ystyried canlyniadau Prosiect Gwella Busnes fel ag amlinellwyd ym mharagraff 6.3 o'r adroddiad.

Caewyd y cyfarfod am 3.30pm

______________________

CADEIRYDD